Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Amcangyfrif 2025-2026

CYFRINACHOL

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol â pharagraff 9(2) Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf) mae'n ofynnol i mi gyflwyno cyllideb refeniw flynyddol i Lywodraeth Cymru (yr Amcangyfrif). Dyma fy Amcangyfrif cyntaf fel y Comisiynydd newydd.

1.2 Mae'r Amcangyfrif hwn yn cael ei ategu gan y gyllideb ddrafft a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2024, a oedd yn rhoi adroddiad manwl o'r pwysau cost yn y gyllideb. Mae hefyd yn cael ei gefnogi gan Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2023-24 sy'n dangos y gwaith mae'r sefydliad wedi'i gyflawni i ddiogelu a hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru.

1.3 Yn y ddogfen hon, rwyf wedi dangos y pwysau cyllidebol parhaus y mae fy sefydliad yn ei wynebu, ac rwyf yn gofyn i gyfanswm cyllideb 2025-26 y Comisiynydd Pobl Hŷn gynyddu 5.2%, neu £85,000 i £1,722,000 o gyllideb 2024-25, sef £1,637,000 (£1,625,000 yn wreiddiol ac incwm ychwanegol o £12,000 ar gyfer pensiwn).

## 2. Y sefyllfa ariannol bresennol a thystiolaeth o arbed costau

2.1 Mae'r sefydliad wedi gallu ymdopi'n barhaus â nifer o gostau cynyddol drwy reolaeth ariannol a phenderfyniadau darbodus dros nifer o flynyddoedd, yn ogystal â chynnwys toriad o 5% yn y gyllideb yn 2024-25. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiad ariannol sylweddol ac wedi cael effaith andwyol ar gwmpas gwaith y Comisiynydd, nad yw'n gynaliadwy.

2.2 Mae'r holl fesurau arbed costau wedi cael eu cyflawni ac maent wedi'u gwreiddio'n gadarn yn arferion ariannol a phrosesau gweithredol y sefydliad.

2.3 Mae strwythur gweithlu'r sefydliad wedi cael ei adolygu a daeth cynllun Ymadael Gwirfoddol i ben ym mis Mawrth 2024. Ar hyn o bryd rwy'n cyflogi tîm o ddim ond 17.4 cyfwerth ag amser llawn, sydd wedi cael ei leihau o 19.6 cyfwerth ag amser llawn (gostyngiad o 9%) o ganlyniad uniongyrchol i gyllideb 2024-25.

2.4 Gostyngodd costau llety'n ddramatig yn 2024-25 wrth i'r swyddfa gael ei symud i adeiladau llai. Oherwydd rheolaeth ariannol barhaus, gellir cynnal costau llety ar £30,000 ar gyfer y gyllideb gyfredol.

2.5 Caiff gwerth am arian ei sicrhau drwy gaffael effeithiol a defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol cymaint â phosib. Mae hefyd wedi lleihau costau cyflogaeth drwy roi gwasanaethau allanol, fel rheoli rhwydweithiau a seilwaith T.G, ar gontractau allanol.

2.6 Bydd effaith gronnol y pwysau unigol ar gyllideb 2025-26 yn cael effaith sylweddol ar y sefydliad. Mae peidio â chael cyllid ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn bygwth lleihau effeithiolrwydd gweithredol y sefydliad, cynyddu'n sylweddol y risgiau sy'n gysylltiedig â chydymffurfedd statudol a chyfreithiol, yn ogystal â bygwth yn sylweddol fy ngallu i gyflawni fy swyddogaethau statudol fel Comisiynydd.

## 3. Cais am gyllideb ar gyfer 2025/26

3.1 Mae'r cais hwn am gyllid yn dangos nad yw'n gynaliadwy mwyach i'm cyllid aros ar ei lefel bresennol o £1,637,000. Rwyf yn rhagweld diffyg o £25,000 ar gyfer 2024/25, a fydd yn cynyddu i £85,000 erbyn 2025/26.

3.2 Mae'r tabl isod yn dangos bod y twf hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gostau cyflogaeth, a hynny oherwydd y cynnydd a ragwelir yn y dyfodol ar gyfer dyfarniadau costau byw a chynyddrannau mewn contractau, yn hytrach na chynnydd yn nifer y gweithwyr neu gynnydd yng nghostau cyflog canolrifol y sefydliad. Mae'r adroddiadau blynyddol archwiliedig yn dangos bod y cyflog canolrifol wedi cynyddu oherwydd y dyfarniadau costau byw, yn hytrach na newid yn strwythur y sefydliad.

3.3 Fel Comisiynydd Pobl Hŷn newydd Cymru, rydw i'n credu mai un o rannau mwyaf heriol y rôl fydd

cyrraedd pobl hŷn sydd â’r angen mwyaf am gymorth. Yn aml, yr unigolion hyn yw’r lleiaf tebygol o fod â mynediad at yr adnoddau neu at ddulliau o gysylltu â mi. Mae mwy o risg na fydd eu lleisiau nhw’n cael eu clywed ac na fydd eu hawliau’n cael eu diogelu. Fel Comisiynydd, fy rôl i yw sicrhau bod y lleisiau hyn yn cael eu clywed, sydd hefyd yn un o swyddogaethau statudol y swyddfa.

3.4 Bydd y cynnydd yng nghyllideb y rhaglen waith yn sicrhau bod fy nhîm a minnau’n gallu cyrraedd mwy o bobl hŷn ledled Cymru, gan ymgysylltu’n uniongyrchol i glywed a deall y ffactorau sy’n cyfrannu at eu llesiant a’r pryderon sydd ganddynt. Drwy ymgysylltu’n uniongyrchol â phobl hŷn, gallaf sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed gan y rhai sy’n gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd.

3.5 Yn dilyn cais am gyfalaf i weithredu System Rheoli Achosion newydd, mae angen gwneud rhagor o waith i adolygu’r fanyleb sydd ei hangen. Gan na fydd y cyfalaf yn cael ei wario yn 2024-25, mae’r amorteiddiad ar gyfer y system hon wedi cael ei ryddhau o amcangyfrif 2025-26 nes bydd penderfyniad wedi’i wneud ar y ffordd ymlaen.

**Cais am gyllideb ar gyfer 2025/26**

| **Cais am gyllideb adnoddau** | **2025-26** | **Amrywiant o’r gyllideb ddangosol (Awst 2024)** | **Nodyn** |
|---|---|---|---|
| Costau cyflogaeth (5% costau byw yn 2024/25, 3% yn 2025-26 a 3% wedi hynny) | 1,326,000 | 21,000 | Pwynt 4.4 |
| Costau cyflogaeth eraill | 26,000 | | |
| Costau llety | 30,000 | | |
| Costau TG | 93,000 | | |
| Ffioedd proffesiynol | 69,000 | | |
| Gorbenion | 35,000 | | |
| Rhaglen Waith | 110,000 | 40,000 | Pwynt 3.3 a 3.4 |
| **Cyfanswm** | **1,689,000** | **61,000** | |
| | | | |
| **Cais am gyllideb nad yw’n arian parod** | | | |
| Amorteiddio Cyfalaf TG (wedi’i gytuno eisoes gan Lywodraeth Cymru) | 9,000 | | |
| ‘Arall’ – Dibrisiant | 7,000 | | |
| IFRS16 - Prydles | 17,000 | | |
| System Rheoli Achosion – Amorteiddio | | (20,000) | Pwynt 3.5 |
| **Cyfanswm** | **33,000** | **41,000** | |
| | | | |
| **Cyfanswm y cais am gyllideb** | **1,722,000** | | |
| Cyfanswm y gyllideb ddangosol (Awst 24) | 1,681,000 | | |
| **Diffyg** | **(41,000)** | | |
| | | | |
| **Gofyniad arian parod** | **2025/26** | | |
| Cais am gyllideb adnoddau | 1,689,000 | | |
| Taliadau rhent (yn unol ag IFRS16) | 17,000 | | |
| Cyfalaf | 0 | | |

CYFRINACHOL

| Cyfanswm | 1,706,000 | | |
|---|---|---|---|

## 4. Effaith tymor hir ar y gyllideb

**Costau staff**

4.1 Ym mis Rhagfyr 2022, roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr heriau cyllido sylweddol a oedd yn wynebu'r sefydliad, a oedd yn sgil pwysau chwyddiant diweddar a gofynion llywodraethu cynyddol gymhleth. Mewn ymateb i Amcangyfrif 2023-24, cynyddodd Llywodraeth Cymru y gyllideb llinell sylfaen ar gyfer 2023-24 i £1,684,000, o £1,589,000. Roedd y cyllid ychwanegol wedi sicrhau nad oedd angen, yn y tymor byr, ystyried ailstrwythuro'r sefydliad a bod cyllideb ddigonol ar gyfer rhaglen waith 2023-24.

4.2 Ym mis Hydref 2023, cafodd Amcangyfrif 2024-25 ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gyllideb o £1,739,000, a fyddai'n gynnydd bach o £55,000 (3.3%), gan dynnu sylw at risgiau parhau â chyllideb wastad. Ym mis Rhagfyr 2023, cafodd y Comisiynydd blaenorol wybod y byddai cyllideb y sefydliad yn gostwng oherwydd y pwysau difrifol ar gyllideb Llywodraeth Cymru. £1,616,000 oedd y gyllideb a ddarparwyd ar gyfer 2024-25, gyda £12,000 arall wedi'i gynnwys ar gyfer incwm pensiwn ychwanegol, gan greu cyllideb gyffredinol o £1,637,000, sef £102,000 neu 5.9% yn llai na'r gyllideb y gofynnwyd amdani.

4.3 Ar ôl cael hysbysiad am gyllideb 2024-25, cafodd y cynllun ariannol tymor canolig ei adolygu'n gynhwysfawr i nodi arbedion cost. O ystyried mai costau staff oedd y pwysau mwyaf sylweddol ar y gyllideb (ac mae hynny'n dal yn wir), roedd yn rhaid ailedrych ar strwythur y sefydliad a'r swyddi gwag o fewn y strwythur hwnnw. Penderfynodd y Comisiynydd blaenorol beidio â recriwtio i swyddi gwag a gweithredu cynllun Ymadael Gwirfoddol, gan arwain at arbedion o tua £92,000 (gan gynnwys argostau) y flwyddyn. O ganlyniad, lliniarwyd y pwysau ar gyllideb 2024-25.

4.4 Ar gyfer fy sefydliad, rwy'n credu mai tua 75% yw'r lefel costau sefydliad staff mwyaf cynaliadwy yn erbyn y dyraniad cyllid, ac ar gyfer 2024-25 bydd yn 76% gyda chynnydd o ddim ond 3% mewn costau staff. Gyda'r cynnydd hwn mewn costau'n cynyddu 2% ymhellach i 5%, bydd y dyraniad cyllid hwn yn cynyddu i 78%. Bydd sicrhau bod cyllideb ddigonol yn dal ar gael ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau statudol a'r rhaglen waith gysylltiedig yn parhau i fod yn her wrth i gostau staff gynyddu oherwydd dyfarniadau costau byw.

4.5 Penderfynodd y Comisiynydd blaenorol, drwy ddyfarnu dyfarniad cyflog costau byw o 3% i staff ar gyfer 2024-25, y byddai'n sicrhau y gallai'r sefydliad barhau i gynnal pwysau'r gyllideb.

4.6 Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn dangos bod pwysau o hyd ar y gyllideb, a disgwylir y bydd diffyg yn y cais am y gyllideb gyffredinol o £41,000 yn 2025-26 yn erbyn cyflwyniad mis Medi 2024.

4.7 Fel y dangosir yn adran 3, costau cyfraith cyflogaeth yw'r maes y mae'r sefydliad yn gwario fwyaf arno. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu fy nghyllideb o lefel 2024-25 o £1,637,000, bydd costau staff yn cynnwys 81% yn 2025-26.

4.8 Os na ddarperir cyllid digonol gan Lywodraeth Cymru, byddai angen adolygu strwythur fy sefydliad unwaith eto i wneud arbedion cost.

4.9 Byddai'r posibilrwydd o agor cynllun Ymadael Gwirfoddol arall flwyddyn yn unig ar ôl y broses flaenorol yn dadsefydlogi'r sefydliad. Byddai'r broses sy'n tarfu ac yn cymryd llawer o amser yn achosi pryder ac ansicrwydd unwaith eto.

4.10 Byddai'r gallu i ddarparu gwaith effeithiol i bobl hŷn yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei amharu'n ddifrifol, gyda phroses ailstrwythuro'n cymryd misoedd lawer i'w chwblhau.

4.11 Byddai'r gostyngiad pellach yn nifer y staff a gyflogir hefyd yn cael effaith sylweddol ar fy ngallu i gyflawni fy nyletswyddau statudol.

**Rhaglen waith**

4.12 Wrth i mi ddechrau yn fy swydd ar 30 Medi 2024, rwyf wrthi'n datblygu fy mlaenoriaethau ar hyn o bryd. Mae cyllideb fy rhaglen waith yn fy ngalluogi i gyflawni fy mlaenoriaethau strategol a fy nyletswyddau statudol yn y dyfodol.

4.13 Fel yr esbonnir yn Adran 3, mae arnaf angen cynnydd yng nghyllideb y rhaglen waith i sicrhau bod fy nhîm a minnau'n gallu cyrraedd mwy o bobl hŷn ledled Cymru, gan ymgysylltu'n uniongyrchol i glywed a deall y ffactorau sy'n cyfrannu at eu llesiant a'r pryderon sydd ganddynt. Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â

CYFRINACHOL

phobl hŷn, gallaf sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd.

4.14 Mae materion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn – er enghraifft y penderfyniad diweddar i leihau'r lwfans tanwydd gaeaf; allgáu digidol; mynediad at wasanaethau iechyd a gofal amserol a phriodol – yn arwain at nifer o anfanteision i bobl hŷn, gan ei gwneud yn fwy a mwy anodd cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth hanfodol sydd eu hangen arnynt. Mae mynd i'r afael â'r materion rhyng-gysylltiedig hyn yn hanfodol i wella bywydau pobl hŷn, ac mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed, er mwyn gallu llywio penderfyniadau polisi ac ymarfer.

## 5. Casgliad

5.1 Mae'r sefydliad wedi parhau i ddangos i Lywodraeth Cymru bod arbedion cost wedi cael eu nodi a'u bod wedi'u gwreiddio yn arferion ariannol y sefydliad.

5.2 Mae'r sefydliad hefyd wedi dangos nad yw'n gynaliadwy cael cyllideb wastad o un flwyddyn i'r llall, na thoriad pellach yn y gyllideb.

5.3 Rwy'n derbyn ac yn deall yn llwyr y bydd penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn heriol, ond bydd ceisio cynnydd o 5.2% o gyllideb 2024-25 yn sicrhau fy mod yn gallu cyflawni fy nyletswyddau statudol a gweithio dros Gymru sy'n arwain y ffordd o ran grymuso pobl hŷn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a galluogi pawb i fyw ac i heneiddio'n dda.

CYFRINACHOL